# AROS YN **DDIOGEL** A SICRHAU **CYDYMFFURFIAETH** AR EICH FFERM




GWASANAETHAU YSWIRIANT
FUW
INSURANCE SERVICES

# Ystadegau allweddol ynglŷn ag iechyd a diogelwch o fewn y diwydiant amaethyddol

**Mae adroddiad yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar gyfer 2020/2021 yn dangos bod 41 o bobl wedi'u lladd o ganlyniad i ffermio a gweithgareddau amaethyddol eraill, sy'n golygu bod amaethyddiaeth yn parhau â'r gyfradd waethaf o anafiadau angheuol i weithwyr (fesul 100,000) o holl brif sectorau diwydiant (mae'r gyfradd gyfartalog flynyddol dros y pum mlynedd diwethaf oddeutu 20 gwaith yn uwch na chyfradd pob diwydiant).**

**O'r rhai a laddwyd, roedd 9 yn weithwyr, 25 yn hunangyflogedig a 7 yn aelodau o'r cyhoedd. Roedd mwy na hanner y gweithwyr a laddwyd yn 60 oed neu'n hŷn.**





## Anafiadau angheuol mewn amaethyddiaeth yn 2020/2021:

- **Lladdwyd 13 pan darwyd gan gerbyd oedd yn symud** (roedd y digwyddiadau'n cynnwys tractorau, cerbydau ATV, peiriannau codi telesgopig, a llwythwyr sgid-lywio)
- **Lladdwyd 11 pan yr anafwyd gan anifail** (roedd y digwyddiadau'n cynnwys gwartheg a theirw gan gynnwys tarw byfflo dŵr)
- **Lladdwyd 6 trwy gyswllt â pheiriannau** (roedd y digwyddiadau yn ymwneud â siafft PTO, bwced cloddio, atodion tractor/trelars ac ati)
- **Lladdwyd 4 wrth gael eu taro gan wrthrych** (roedd y digwyddiadau'n cynnwys belen o wair, slab concrit, coeden a changen coeden)
- **Lladdwyd 3 o ganlyniad i gwympo o uchder** (roedd y digwyddiadau'n cynnwys cwympo drwy doeon bregus ac o flwch tatws wedi'i godi gan ddefnyddio tryc fforch godi)
- **Lladdwyd 1 o gael ei ddal o dan rywbeth yn cwympo** (roedd y digwyddiad yn cynnwys trelar graen)
- **Lladdwyd 1 o ganlyniad i fygu/boddi** (digwyddiad yn cynnwys nwyon slyri)
- **Lladdwyd 1 gan dân** (digwyddiad yn cynnwys llosgi grug)
- **Lladdwyd 1 gan achos arall** (digwyddiad yn cynnwys beic cwad ATV)

(Ffynhonnell: Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch 2020/2021)



# Deddfwriaeth gyfredol

**Mae angen i ffermwyr gydymffurfio â deddfwriaeth gyfredol gan gynnwys Rheoliadau Gweithrediadau Codi ac Offer Codi 1998 (LOLER), Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd 2002 (COSHH) a Rheoliadau Diogelwch Systemau Gwasgedd (PSSR) ymhlith eraill i sicrhau diogelwch eu safle.**

Rhaid cynnal archwiliadau rheolaidd i sicrhau diogelwch unrhyw un sy'n dod i'r safle, gan gynnwys gweithwyr, contractwyr ac aelodau'r cyhoedd.

## Rheoliadau Gweithrediadau ac Offer Codi 1998 (LOLER)

Mae LOLER yn cynnwys archwilio offer fel blaen-lwythwyr tractor, tryciau fforch godi a telehandlers, teclynnau codi yn y gweithdy a theclynnau codi rhaff, craeniau ar beiriannau (ee taenwyr gwrtaith) ac atodion codi.

Rhaid i declynnau codi gael eu harchwilio'n drylwyr gan berson cymwys pan gaiff eu defnyddio am y tro cyntaf; yn dilyn gwaith adnewyddu neu atgyweirio mawr; ar ôl ei osod mewn lleoliad newydd; ac ar unrhyw gyfnod lle gellid darganfod bod yna ddirywiad wedi ei achosi gan draul.

Dyluniwyd proses archwilio drylwyr LOLER i amddiffyn gweithredwyr a phobl sy'n gweithio gyda theclynnau codi a allai fod mewn perygl os bydd yr offer codi hynny'n methu yn sydyn.

## Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH)

Nod rheoliadau COSHH yw dileu cysylltiad â sylweddau peryglus, rheoli'r cysylltiad â monitro iechyd.

Mae enghreifftiau o sylweddau peryglus yn cynnwys y rhai a ddefnyddir yn uniongyrchol o fewn gwaith fel gwrteithwyr, a'r rhai sy'n digwydd yn naturiol fel llwch dofednod a nwyon seilo a phyllau slyri.

## Rheoliadau Diogelwch Systemau Gwasgedd (PSSR)

Rhaid archwilio eitemau sydd dan bwysau neu sy'n defnyddio stêm, fel tancer slyri neu gywasgydd aer, yn drylwyr o dan PSSR.

Nod PSSR yw atal anaf difrifol rhag y perygl o egni wedi'i storio (wasgedd) o ganlyniad i fethiant system wasgedd neu un o'i gydrannau.



# Rheoliadau a'ch dyletswyddau cyfreithiol

**Mae'n ofyniad cyfreithiol bod yr ardystiadau cywir mewn grym.  Os nad yw rhain ar gael ar ôl digwyddiad, yna mi allai arwain at drafferthion difrifol.**

Er enghraifft, os nad oes gennych Dystysgrif Arolygu Peirianneg gyfredol ar gyfer eich telehandler/llwythwr pen blaen/offer codi neu ardystiad/hyfforddiant triniwr digonol a'ch bod yn ddigon anffodus i gael damwain ddifrifol, gallai'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch benderfynu eich erlyn. Os bydd hyn yn digwydd, bydd eich cynrychiolaeth gyfreithiol (a gwmpesir gan eich yswiriant treuliau cyfreithiol) yn gyfyngedig o ran sut y gallant eich helpu.

Mae methu ag archwilio o dan LOLER yn dor-cyfraith ynddo'i hun a phe bai damwain yn digwydd, byddai'n cael ei ystyried fel rhan o ymchwiliad a allai arwain at erlyniad.

**Gallai methu â chadw at reoliadau arwain at:**

- **Camau gorfodi yn cael eu cymryd yn eich erbyn gan arwain at yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn adfer costau**
- **Erlyniadau yn erbyn naill ai'ch cwmni (yn achos cwmnïau cyfyngedig) a/neu unigolion a allai arwain at ddirywion mawr, gwaharddiad a/neu garchar**
- **Biliau cyfreithiol uchel**

**Cofiwch: Yn bwysicach, gallai cadw at reoliadau a chadw'ch ardystiadau yn gyfoes atal damwain, ac arbed bywyd rhywun.**



# Yma i helpu

**Yng Ngwasanaethau Yswiriant FUW, rydym yn falch o gefnogi ffermwyr a darparu'r cyngor wedi'i deilwra orau ag y medrwn. Fel rhan o Undeb Amaethwyr Cymru (UAC Cyf), rydym o'r farn mai ein cyfrifoldeb ni yw cadw ein ffermwyr a'n cymunedau mor ddiogel â phosibl, a dyna pam rydym yn argymell y dylai pob busnes fferm gael tystysgrifau arolygu peirianneg a'r hyfforddiant/tystysgrifau trinwyr priodol.**

Mae Iechyd a Diogelwch ar y fferm yn bwysig, er mwyn rheoli eich risgiau a'ch cadw chi ac eraill yn ddiogel. **Peidiwch â dod yn un o'r ystadegau.**

I gael mwy o wybodaeth am reoli'ch risgiau, cysylltwch â ni heddiw.

FUW
UNDEB AMAETHWYR CYMRU

## Eich Undeb, yn gofalu amdanoch chi

**Gadewch inni wneud y diwydiant amaethyddol yn lle mwy diogel i fyw a gweithio ynddo.**

# Cysylltwch â ni


0344 800 3110

info@fuwinsurance.co.uk
**www.fuwinsurance.co.uk**

Gwasanaethau Yswiriant FUW, PO Box 250,
Aberystwyth, SY23 9FJ